

Adroddiad Gofynion Iaith Gymraeg GOC 2022-2023

Mae'r adroddiad canlynol yn nodi sut mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) wedi sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Mae'n gosod y sylfeini ar gyfer Safonau newydd y Gymraeg, a ddaw i rym ar gyfer y GOC ar 6 Rhagfyr 2023.

Y Cefndir

Paratowyd y [Cynllun Iaith Gymraeg](#) yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cymeradwywyd y Cynllun gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 (1) y Ddeddf ar 23 Tachwedd 2009.

Mae'r GOC wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweinyddu'r egwyddor hon wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.

Bwriad cyffredinol y Cynllun Iaith Gymraeg yw hybu a hwyluso'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru.

1. Asesiad o Effaith y Polisi

1.1 Nifer a chanran y polisiâu (gan gynnwys y rhai a adolygydd neu a ddiwygiwyd) lle rhoddwyd ystyriaeth i'r effeithiau y byddai'r polisi'n eu cael ar ddefnyddio'r Gymraeg.

Yn nhempeld asesu effaith y GOC, sy'n berthnasol i bob polisi newydd neu ddiwygiedig, mae effeithiau ar y Gymraeg yn cael eu sgrinio, a gofynnir i staff a oes angen cyfieithu'r polisi neu rannau o'r broses i'r Gymraeg. Mae'r asesiadau effaith hyn yn cael eu hadolygu i sicrhau cydymffurfiaid â'r safonau newydd yn 2023.

1.2 Enghraifft o asesiad y bernir ei fod yn effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg a manylion am sut y cafodd y polisi ei ddiwygio o ganlyniad.

Nid oes unrhyw enghreifftiau o ble yr ystyriwyd bod asesiad yn cael effaith ar y defnydd o'r Gymraeg, a dim newidiadau o ganlyniad.

2. Cyhoeddi

2.1 Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd

Ar wefan GOC mae cyfanswm o 203 o gyhoeddiadau. Mae'r rhain ar gael ar ein gwefan - https://www.optical.org/en/news_publications/Publications/index.cfm

Gellir rhannu'r cyhoeddiadau hyn yn gategoriâu yn y tabl isod.

Gwybodaeth a pholisïau corfforaethol	51
Bwletinau	5
Cyhoeddiadau addasrwydd i ymarfer a gwrandawiadau	73
Adroddiadau blynyddol	7
Taflenni cleifion	1
Canllawiau, ffurflenni ac adroddiadau cofrestru	41
Cyhoeddiadau cydraddoldeb ac amrywiaeth	26
Cyhoeddiadau canllaw ar gyfer proffesiynau, cyflogwyr, a darparwyr addysg a DPP	72
Papurau polisi ac ymchwil	100
Adroddiadau chwythu'r chwiban	6
Datganiadau rheoleiddio ar y cyd ar ymarfer myfyriol	1
Y wybodaeth ddiweddaraf am Covid-19 gan gynnwys archif	34

Mae hyn yn gyfanswm o 417 (heb gynnwys cyhoeddiadau Cymraeg).

2.2 Nifer y cyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd yn Gymraeg

Ar wefan GOC, mae 19 o gyhoeddiadau ar gael yn Gymraeg. Mae'r rhain ar gael drwy'r adran Gymraeg ar y wefan. [Adnoddau Cymraeg | GeneralOpticalCouncil](#)

Yn 2023, byddwn yn ymestyn ein gwaith o gyfieithu dogfennau i'r Gymraeg yn sylweddol er mwyn cydymffurfio â Safonau newydd y Gymraeg. Bydd hyn yn sicrhau nad yw cofrestreion sy'n siarad Cymraeg a'r cyhoedd yn cael eu trin yn llai ffafriol pan fydd angen iddynt gael gafael ar ein canllawiau a'n safonau.

3. Cwynion

3.1 Nifer yr holl gwynion a dderbyniwyd am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru

Yn 2022-2023 derbyniwyd 10 cwyn am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru, ac agorwyd un ohonynt yn ffurfiol, ac mae pob achos wedi cau ers hynny.

3.2 Nifer y cwynion a dderbyniwyd yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru

Yn ystod 2022-2023 ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw gwynion yn Gymraeg am ymddygiad ymarferwyr yng Nghymru.

3.3 Roedd nifer y cwynion a dderbyniwyd yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i gynllun iaith Gymraeg

Yn ystod 2022-2023 ni dderbyniodd y Cyngor unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Cyngor â'i Gynllun Iaith Gymraeg.

4. Gwefan

4.1 Canran gwefan y sefydliad sydd ar gael yn Gymraeg

Mae gan wefan GOC 660 o dudalennau, ac mae un ohonynt yn Gymraeg, ac mae'n gallu cyfieithu mwy o dudalennau i'r Gymraeg.

4.2 Tystiolaeth yn ymwneud ag unrhyw gynlluniau i wella neu gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar y wefan

Er mwyn bodloni'r gofynion newydd a gyflwynwyd gan Safonau'r Gymraeg a hyrwyddo mynediad i siaradwyr Cymraeg, mae ategyn gwefan sy'n caniatáu i dudalennau Saesneg ar y wefan gael eu cyfieithu a'u dangos yn Gymraeg yn cael ei integreiddio i wefan GOC.

4.3 Mae tystiolaeth sy'n ymwneud â'r broses a ddefnyddir i sicrhau bod cynnwys, diweddariadau a chynnwys newydd presennol yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg (os yw'r broses yn wahanol i'r hyn a nodwyd yn 2020-21)

Mae prosesau newydd yn cael eu datblygu i nodi pryd y dylid darparu cyhoeddiadau newydd yn Gymraeg a sut i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyfieithu a'u darparu'n amserol ochr yn ochr â'u fersiynau Saesneg cyfatebol. Bydd hyn yn sicrhau bod dogfennau yn y dyfodol sy'n cael eu llwytho i fyny i'r wefan yn cydymffurfio â gofynion y cynllun iaith Gymraeg.

5. Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg

5.1 Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg y sefydliad a thystiolaeth o unrhyw gynnydd dilynol yn y gwasanaethau a ddefnyddir gan y cyhoedd.

Mae deunydd Cymraeg yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor Optegol Cyffredinol a gellir ei weld drwy'r dudalen cyhoeddiadau [Adnoddau Cymraeg | GeneralOpticalCouncil](#)

Rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023, roedd gan y dudalen 429 o ymweliadau, 0.023% o gyfanswm ymweliadau'r wefan, sef 1,834,186. Dyma'r 277fed tudalen yr ymwelwyd â hi fwyaf ar y wefan.

Ar gyfer y cyhoedd mae gwasanaethau teleffoni yn cael eu cyfieithu i'r Gymraeg ac mae unrhyw gyfryngau perthnasol hefyd wedi cael eu nodi i'w cyfieithu gan y gwasanaeth hwn. Mae dyfynbrisiau wedi cael eu caffael gan wasanaethau cyfieithu teleffoni a dylid gwneud y gwaith hwn erbyn y terfyn amser ar 6 Rhagfyr 2023.

5.2 Gwybodaeth am ddulliau a ddefnyddir i asesu ansawdd gwasanaethau Cymraeg y sefydliad (e.e. asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth presennol/darpar ddefnyddwyr y gwasanaeth)

Mae'r gwasanaethau cyfieithu y mae GOC wedi'u caffael wedi darparu mesurau sicrhau ansawdd, gan gynnwys ardystiad safonau ISO. Bydd asesiadau mewnol yn cael eu rhoi ar waith hyd at 6 Rhagfyr 2023 i asesu profiad defnyddwyr gwasanaeth presennol a darpar ddefnyddwyr gwasanaeth yn rheolaidd.

6. Achosion Addasrwydd i Ymarfer

6.1 Nifer y gwrandawiadau a gynhaliwyd yng Nghymru

Yn ystod 2022-2023 ni chynhaliwyd unrhyw wrandawiadau yng Nghymru.

6.2 Nifer y gwrandawiadau lle gwnaethpwyd cais gan y tyst i siarad Cymraeg

Yn ystod 2022-2023 ni wnaed unrhyw geisiadau gan dystion i siarad Cymraeg.

6.3 Nifer y gwrandawiadau lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg.

Ni chafwyd unrhyw wrandawriad lle cyflwynwyd tystiolaeth yn Gymraeg yn ystod 2022-2023.

7. Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith

7.1 Nifer a chanran staff newydd y sefydliad (h.y. yn ystod y 12 mis diwethaf) a gafodd hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, nid oes unrhyw staff newydd wedi derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

7.2 Nifer a chanran gweithlu cyfan y sefydliad sydd wedi cael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ers cyflwyno'r hyfforddiant.

Nid oes unrhyw staff wedi mynychu'r hyfforddiant iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd mae'r GOC yn adolygu'r pecyn hyfforddi y mae'n ei ddarparu a gofynnir i'r holl staff fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth yn ystod Gaeaf 2023.

8. Hunanreoli

8.1 Manylion y trefniadau a'r gweithdrefnau y mae'r sefydliad wedi'u mabwysiadu i'w alluogi i hunanreoleiddio'n effeithiol.

Mae grŵp Gweithredu'r laith Gymraeg wedi cael ei ddatblygu ac mae'n cyfarfod bob pythefnos i sicrhau cydymffurfiaeth â'r safonau. Mae'r grŵp hwn yn cael ei fonitro gan SMT GOC drwy brosesau rheoli risg.

Mae cynnwys cwestiynau am y Gymraeg yn ein hadnodd sgrinio asesu effaith safonol yn sicrhau bod staff yn parhau i fod yn ymwybodol o'r angen i feddwl am ofynion y Gymraeg.

Mae prosesau i sicrhau hunan-reoleiddio mewnol parhaus yn cael eu datblygu cyn y terfyn amser ar 6 Rhagfyr 2023 er mwyn sicrhau cydymffurfiaid parhaus ac asesu trefniadau a gweithdrefnau newydd a chyfredol.

8.2 Adborth gan Ddefnyddwyr:

Mae gan y GOC hyb ymgynghori i gasglu adborth gan y cyhoedd a chofrestreion ar sut mae'r GOC yn gweithredu. Enghreifftiau o eitemau ar gyfer ymgynghori yn eu cylch yw polisi a chanllawiau. Drwy ymgynghori, gall y GOC sicrhau ei fod yn cynnal ei gyfrifoldebau o ran diogelu'r cyhoedd, drwy hyrwyddo safonau uchel o ran addysg, perfformiad ac ymddygiad ymhlith optegwyr. Mae'r hyb ymgynghori hwn ar gael yn <https://consultation.optical.org/> Os gwneir cais, bydd y cwestiynau ar gyfer yr ymgynghoriad yn cael eu darparu yn Gymraeg.

Mae gan y GOC weithdrefnau cwyno ar y canlynol: cwynion addasrwydd i ymarfer am gofrestreion GOC, cwynion defnyddwyr am gofrestreion GOC, cwynion am arferion anghyfreithlon am bobl nad ydynt yn gofrestreion, a chwynion corfforaethol. Mae gan bob un broses wahanol yn dibynnu ar y math o gwynion. Cyhoeddir y broses ar gyfer pob math o gwyn ar wefan GOC, gan gynnwys fersiwn Gymraeg o'r Polisi Cwynion Corfforaethol. <https://optical.org/en/publications/cymraeg/>

Mae ffurflenni cwyno ychwanegol ar gyfer cwyno am gofrestreion GOC ar gael hefyd ar ein tudalen Gymraeg <https://www.optical.org/en/utilities/cymraeg/index.cfm>

8.3 Sicrwydd Mewnol ynghylch Perfformiad

Fel rhan o brosiect GOC ac asesiadau effaith polisi ac adolygiadau, caiff yr holl eitemau eu sgrinio i wirio a oes angen eu cyhoeddi yn Gymraeg, gan sicrhau bod y GOC yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae gan bolisiâu mewnol ac allanol brosesau adolygu cadarn, lle mae polisiâu'n cael eu hadolygu gan y Grŵp Adolygu Polisi. Mae aelodau'r grŵp yn cynrychioli'r Cyngor Optegol Cyffredinol, gan gynnwys Safonau a Chyfreithiol. Mae hyn yn sicrhau bod y GOC yn cydymffurfio â safonau, y gyfraith a chyfrifoldebau fel rheoleiddiwr iechyd.

9. Arweinyddiaeth a Chynllunio Strategol

Y Cyngor yw corff llywodraethu'r GOC, ac aelodau'r Cyngor yw ymddiriedolwyr yr elusen. Maent yn gyfrifol ar y cyd am gyfarwyddo busnes y Cyngor Optegol Cyffredinol, gan sicrhau ei fod yn ddiddyled, yn cael ei redeg yn dda, ac yn dod â budd i'r cyhoedd.

Mae holl aelodau'r Cyngor yn rhannu'r un ddyletswydd o ran diogelu'r cyhoedd ac yn goruchwyllo'r ystod lawn o brosesau rheoleiddio.

Prif swyddogaethau'r Cyngor yw:

- diogelu, hybu a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant y cyhoedd;
- hybu a chynnal hyder y cyhoedd yn y proffesiynau a reoleiddir o dan Ddeddf Optegwyr 1989;
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad proffesiynol priodol ar gyfer aelodau'r proffesiynau hynny; a
- hyrwyddo a chynnal safonau ac ymddygiad priodol ar gyfer busnesau cofrestredig.

Mae ein Cyngor yn cynnwys 12 aelod o'r Cyngor, gyda chwech ohonynt yn gofrestreion ac mae chwech yn aelodau lleyg. Daw'r aelodau o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae'n ofyniad statudol bod y Cyngor yn cynnwys aelod o bob un o'r gwledydd datganoledig. At ddibenion cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth, mae'r rôl hon i Gymru yn cael ei chyflawni gan Lisa Gerson, Aelod Cofrestredig.

Mae ein strwythur llywodraethu yn cynnwys pedwar pwyllgor anstatudol (Archwilio, Risg a Chyllid, Buddsoddi, Enwebiadau a Thâl) a phedwar pwyllgor statudol (Cwmnïau, Addysg, Cofrestru a Safonau). Mae'r pedwar pwyllgor statudol (a elwir weithiau'n bwyllgorau'r Cyngor) yn cyfarfod ar y cyd fel Panel Cyngori.

Er mwyn arfer ei bwerau, mae'r Cyngor yn dirprwyo rhai cyfrifoldebau i bwyllgorau sydd ag awdurdod a chylch gorchwyl wedi'u diffinio'n glir.

Mae Cyngor y GOC yn cymeradwyo strategaeth a chyllideb y GOC ar gyngor yr Uwch Dîm Rheoli.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn cynnwys y Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, Cyfarwyddwr Newid, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Rheoleiddio a Chyfarwyddwr Strategaeth Rheoleiddio.

Mae'r Uwch Dîm Rheoli yn gyfrifol am arwain a rheoli'r GOC yn weithredol. Yn eu swyddi, maent yn sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau statudol, yn cynghori'r Cyngor ar gyfeiriad strategol y GOC, yn paratoi cyllidebau i'w cymeradwyo gan y Cyngor ac yn rheoli risgiau strategol.

Y Prif Weithredwr, gyda chefnogaeth Llywodraethu, sy'n gyfrifol o fewn yr Uwch Dîm Rheoli am gydymffurfio â chyfraith gorfforaethol, elusennol a chydaddoldeb, a gyda'n rhwymedigaethau Iaith Gymraeg.

Arbenigedd Gweithredol gan Unigolyn neu Dîm Penodol

Mae'r tîm Polisi yn gyfrifol am amrywiaeth o faterion polisi drwy ddadansoddi, ymchwilio a gwneud argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan ystyried datblygiadau allanol a'r cyd-destun rheoleiddio ehangach. Byddai hyn yn cynnwys ystyried anghenion, gofynion a materion penodol gan y gwledydd datganoledig, gan gynnwys Cymru.

Mae'r tîm Llywodraethu yn gyfrifol am gefnogi'r Prif Weithredwr a'r Cofrestrydd, y Cyngor a'r Uwch Dîm Rheoli o ran rhedeg y Ganolfan o ddydd i ddydd, gan ddarparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad perthnasol, a sicrhau y cydymffurfir â deddfwriaeth berthnasol. Mae'r tîm yn cwmpasu Llywodraethu Corfforaethol, Cydymffurfio, Cymorth Aelodaeth, Polisiâu Llywodraethu, Rheoli Gwybodaeth, EDI a Chynllunio Busnes a Sicrwydd.

Mae'r Tîm Cyfathrebu hefyd yn cefnogi ein Cynllun Iaith Gymraeg drwy reoli tudalen Gymraeg y wefan.

Mae'r GOC wedi penodi Rheolwr EDI, sy'n adrodd i'r Pennaeth Llywodraethu ac sy'n gyfrifol am gydymffurfiaeth iaith Gymraeg. Mae eu rôl yn ein helpu i sicrhau bod ein haelodau, ein cyflogeion a'n gweithwyr yn ymwybodol o sut bydd eu cyfrifoldebau'n newid o dan Safonau newydd y Gymraeg yn 2023. Maent yn gwneud hyn drwy gefnogi'r gwaith o weithredu'r Safonau newydd a darparu hyfforddiant.